Targed	Sut rydw i wedi gweithio ar hwn?	Esiampl
“Peth gwallau yn y cyfeirnodi yn y llyfryddiaeth, e.e. lleoliad gwasg. Gweler Llawlyfr Cyfeirnodi Havard.”	Edrychais ar y llawlyfr yn fanwl.	Edrych ar y rhestr cyfeirnodi.
Gwirio iaith.	Defnyddiais Cysill a darllenais dros fy ngwaith yn ofalus.	Yr aseiniad cyfan.

Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble ydw i'n addysgu?

Elfen 2: Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy’n adfyfyrio’n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a’r sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Bwriad yr aseiniad yma yw ffocysu ar un agwedd o Gynllun Datblygu Ysgol (CDY) ac adfyfyrio’n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a’r sylfaen dystiolaeth. Dilynir canllawiau BERA (2018) i beidio rhannu manylion a gwybodaeth bersonol sy’n gallu adnabod yr ysgol, felly yn ystod yr aseiniad cyfeirir at yr ysgol fel YsgolX. Yn ôl gwefan YsgolX maent yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo Cymreictod a datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus (YGG[redacted], 2022). Lleolir yr ysgol ym mhentref bach gyda dros 480 o ddysgwyr rhwng 3 ac 11 oed (YGG[redacted], 2022). Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn ysgol arloesi ac mae’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau’n ymwneud â Chwricwlwm i Gymru. Yr agwedd canolbwyntir arno yw bwriad yr ysgol i ddatblygu sgiliau llafar Cymraeg y dysgwyr ar ôl y cyfnod clo ([redacted], 2021). Cysylltir y targed yma i erthygl 30 o hawliau plant Cymru sy’n nodi’r hawl i ddefnyddio iaith eich hun (Comisiynydd Plant Cymru, 2011). Dyma elfen bwysig i’r ysgol i ddatblygu, oherwydd er taw Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol mae 92% o’u disgyblion yn dod o gartrefi di-gymraeg (Estyn, 2018). Felly, yn ystod y cyfnod clo nad oedd cyfle gan y mwyafrif datblygu eu sgiliau llafar. Nod yr ysgol yw ymarfer patrymau safonol a dysgu rheolau sgwrsio yn annibynnol i wella eu sgiliau llafar Cymraeg (YGG[redacted], 2021).

Adolygiad Llenyddiaeth

Bwriedir trafod am y broses datblygu ysgol ar lefel damcaniaethol. Mae CDY yn ddogfen weithredol a phroses barhaus sy'n helpu ysgolion fel cymunedau cymhleth i gwrdd â'r heriau o wella ansawdd ac ysgogi newid (Education and Training Inspectorate, 2009). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2014) mae CDY yn gynllun strategol ar gyfer gwelliant a datblygiad ysgol, nodir bwriad a chamau cymerir er lles y dysgwyr. Rhoddir canllawiau gan Education and Training Inspectorate (2009) sy'n nodi bydd cynllun effeithiol yn cynorthwyo'r ysgol i adeiladu ar eu cryfderau ac i amlinellu eu meysydd i'w gwella fel y gellir mynd i'r afael â'r rhain. Cysylltir i gyngor Llywodraeth Cymru (2014) i lunio'r CDY trwy hunanwerthuso ynghyd â data, dadansoddi cryfderau a'i gwendidau, a phenderfynu ar eu blaenoriaethau fel ysgol, yn ogystal â thargedau tymor byr a thymor hir. Y cam nesaf yw rhoi'r cynllun ar waith trwy benodi arweinydd a chynllunio'r camau gweithredu (Bezzina, 1999). Wrth wneud hynny, mae'n cynnig ffordd effeithiol i ddefnyddio arbenigedd cyfunol yr holl staff, i hyrwyddo gwaith tîm, ac i gynllunio a gweithredu newid ar gyfer gwelliant (Education and Training Inspectorate, 2009). Bydd yn dangos hefyd sut mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ei staff er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a thargedau'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2016). Yn arbennig, mae nifer o bobl yn gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel mewn ysgolion, ond y pennaeth sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol gyda'r corff llywodraethu (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn gyffredinol, arweinyddiaeth yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol mewn dylanwadu ar ansawdd a chynaliadwyedd gwelliant yr ysgol (Estyn, 2016). Yn YsgolX penodir arweinydd i ffocysu ar bob targed (YGG[redacted], 2021). Ar bob cam o ddatblygiad ysgol mae arweinwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn datblygu medrau proffesiynol eu staff a'u cynorthwyo ar hyd taith datblygu'r ysgol (Estyn, 2016). Yn olaf, mae rhaid gwerthuso, gwirio llwyddiant ac adolygu'r targedau, oherwydd mae'n bwysig i ysgol wybod os oes modd symud ymlaen i darged arall neu oes rhaid ailymweld (Bezzina, 1999). Gwneir YsgolX hyn trwy gynnal cyfarfodydd, cymharu canlyniadau, arolygon llyfrau ac arsylwadau gwersi (YGG[redacted], 2021).

Nawr, canolbwyntir ar lenyddiaeth yn gysylltiedig i ddatblygiad sgiliau llafar ac effaith y pandemig ar ddatblygiad plant. Ar un llaw, cred Chomsky (1965, dyfynnwyd gan Siencyn, 2010) bod iaith yn rhy gymhleth i ddysgu ac mae'n rhan o wneuthuriad bodau dynol ac etifeddiaeth fiolegol. Ar y llaw arall, mynna Gross (2013) bod dysgu iaith yn cymryd amser, ac mae plant yn cyrraedd cerrig milltir datblygiad iaith a lleferydd ar adegau amrywiol. Cysylltir hyn i gred Donaldson (2015) bod dilyniant mewn dysgu fel taith gyda chyfnodau o gynnydd ond hefyd cyfnodau o lonydd, gan fod datblygiad pob plentyn yn unigryw. Cydnabyddir gan YsgolX bydden gymryd amser i adeiladu hyder y dysgwyr yn eu sgiliau

llafar, felly'r cynllun yw datblygu eu sgiliau dros amser (YGG[redacted], 2021). Fodd bynnag, dywed y CDC (2021) ceir plant eu geni yn barod i ddysgu iaith, ond maent yn dysgu iaith trwy gopïo a gwrando ar y rhanddeiliad yn eu hamgylchedd. Yn aml, gwelir iaith fel geiriau a modd o gyfathrebu, ond sylfaen iaith yw'r gallu i wrando, chwarae a rhyngweithio (Zascerinska, 2010). Ystyrir y wybodaeth yma gan yr ysgol wrth gynllunio am strategaethau datblygu (YGG[redacted], 2021). Cytuna Vygotsky (1962, dyfynnwyd gan McLeod, 2020) bod rhyngweithio yn hanfodol i ymarfer iaith, yn enwedig siarad a chwarae. Atgyfnertha Bruner (1982, dyfynnwyd gan Siencyn, 2010) y pwysigrwydd o amgylchedd ieithyddol cyfoethog ac ystyrir y tair ffactor (teulu a chyfoedion, genetig ac amgylchedd) fel dylanwadau ar iaith. Yn amlwg o’r cyflwyniad daw'r mwyafrif o ddysgwyr YsgolX o gartrefi di-Gymraeg, felly mae’n bwysig ffocysu ar eu sgiliau llafar Cymraeg yn yr ysgol. I’r gwrthwyneb, awgryma tystiolaeth ddiweddar gan CDC (2021) nad yw dwyieithrwydd yn achosi anawsterau, y gallu i ddeall a siarad ieithoedd gwahanol yn dibynnu ar ymarfer a’i ddefnydd. Yn ogystal â hyn, yn ôl erthygl gan Roberts (2021) mae nifer o ysgolion lleol yn yr un sefyllfa gyda dim ond 76.5% o rieni'n siarad Saesneg yn unig pan mae eu plant yn mynychu ysgolion Gymraeg.

Dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf, mae ysgolion wedi gweithio’n ddiflino i gyfyngu ar effaith y pandemig ar ddisgyblion (EEF, 2021). Nawr, bydd llawer yn edrych ymlaen at ddarparu cymorth parhaus, gan adfer dysgu a allai fod wedi'i golli ers dechrau'r pandemig, megis sgiliau llafar, ynghyd â mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella ysgolion yn y dyfodol (EEF, 2021). Yn ôl holiadur gan Lywodraeth Cymru (2020b) ers y pandemig yn gyffredinol mae grwpiau Cymreig wedi lleihau tua 13%, ac nid oedd y mwyafrif o grwpiau (68%) wedi cynnal gweithgareddau neu ddigwyddiadau o gwbl ers y cyfnod clo sy’n cael effaith ar yr iaith. O ganlyniad i ysgolion cau gall ymrwymiad at addysg dirywio ac i rai dysgwyr gall yr absenoldeb achosi lleihad yn eu dyfalbarhad (Rogers, 2020). Ychwanega’r PHE (2014), gall beidio ymdopi i drosglwyddo nôl i’r ysgol fod yn gyfnod tyngedfennol yn eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ieithyddol, oherwydd gall effeithio ar lefel eu hymgysylltiad gyda'r dysgu ac felly'n effeithio ar eu cyrhaeddiad.

Datblygu pwynt gweithredu

Yn yr adran hon trafodir am y prosesau defnyddia YsgolX i ddatblygu sgiliau llafar y dysgwyr fel rhan o’u CDY. Lluniwyd y cynllun yn dilyn mewnbwn gan staff, llywodraethwyr, rhieni a’r dysgwyr.

Yn gyntaf, canolbwyntir ar y broses hunanwerthuso. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn ystod diwrnodau HMS drwy holiaduron a chyfarfodydd ysgol (YGG[redacted], 2021). Ar ddiwedd y flwyddyn edrychir ar recordiadau o asesiadau llafar a lefelau o sampl gan yr arweinydd y

maes dysgu a phrofiad (MDaPh) Ieithoedd, llythrennedd a Chyfathrebu yn ogystal â'r pennaeth a dirprwy. Er hyn, mae rhaid cadw mewn cof bod pob dysgwr yn unigryw, felly efallai dydy hyn ddim yn gynrychioliad teg o'r ysgol gyfan. Er enghraifft, gallai ddisgyblion ddangos ymddygiad penodol unwaith yn unig (Cohen, Manion a Morrison, 2007). Mae disgwyliad cynyddol i ysgolion ddefnyddio data i fonitro eu perfformiad, canfod meysydd i'w gwella a defnyddio data i wneud penderfyniadau gwybodus i wella ansawdd addysg yn effeithiol (Schildkamp, 2019). Fodd bynnag, fel y disgrifir yn y papur hwn, mae nifer o ffactorau i ystyried nid data yn unig (Schildkamp, 2019). Yn yr achos yma y pandemig oedd yr ystyriaeth. Newidiwyd addysg i ddysgwyr oherwydd y pandemig, mae data yn denu sylw at golledion addysgol ar sawl lefel ac yn cadarnhau'r cynnydd yn achosion o bryder a diffyg cymdeithasu/cyfathrebu (Daniel, 2020). Bwriad dadansoddi'r data oedd cymharu'r lefelau ar ddechrau a diwedd y flwyddyn i fonitro'r cynnydd. Yn ystod un o'r cyfarfodydd trafodwyd amdano'r data, gwyliwyd sampl o recordiadau a sylweddolwyd roedd llawer o eirfa Saesneg, diffyg hyder ac ansicrwydd ystyr (YGG[redacted], 2021). Ymhellach, roedd y lefelau'n is na chyn y pandemig, ac felly arweiniwyd at flaenoriaethu gwella sgiliau llafar Cymraeg ar draws yr ysgol (YGG[redacted], 2021). Yn symud ymlaen, defnyddir yr ysgol camau cynnydd yn lle lefelau o ganlyniad i awgrymiadau Donaldson (2015).

Fel rhan o GDY mae'r pennaeth ac arweinydd y MDaPh yn cynnal tri arsylwad gwers y flwyddyn i bob athrawes. Sylweddolwyd yn ystod yr arsylwadau gwersi nad oedd y dysgwyr yn trafod trwy gyfrwng y Gymraeg (YGG[redacted], 2021). Darparir arsylwadau gwersi'r cyfle i adeiladu cymuned ymhlith cydweithwyr, yn ogystal ag annog yr athrawon i fyfyrio ar eu haddysgu, gan eu helpu i ddatblygu a gwella eu harfer yn barhaus (Paramour, 2018). Anghytuna Inwood (2020) a mynna mai cywirdeb y rhan fwyaf o arsylwadau yn agored i ragfarn. Ond, mae arsylwi gwersi yn gymhleth: yn gyntaf, oherwydd bod cymaint o ysgolion yn dal i roi cymaint o ffydd ynddynt; ac yn ail, am fod y dystiolaeth dros eu defnyddioldeb yn amheus (Inwood, 2020). Dywed Dylan Wiliam (dyfynnwyd yn Hallahan, 2021) y broblem fawr gydag arferion arsylwi gwersi presennol yw'r ffaith nad yw'n adlewyrchiad cywir o addysgu. Yn ôl YsgolX dyma strategaeth effeithiol i weld y plant yn amgylchedd naturiol, ond tanlinella'r ymchwil ei bod yn broses dibwrpas.

O ganlyniad i'r anghysondeb rhwng ieithoedd yn y tŷ ac ysgol mae'n rhan bwysig o'r CDY i gynnwys rhanddeiliad yn unrhyw ddatblygiadau (YGG[redacted], 2021). Er gall sicrhau cefnogaeth a chyfraniad rhieni weithiau bod yn anodd, atgyfnertha Llywodraeth Cymru (2020a) y pwysigrwydd o fagu perthynas cadarnhaol gyda rhieni, achos gall yr ymgysylltiadau cynorthwyo cynnydd y dysgwyr. Cefnoga hyn gan Ball a Blachman (1991, dyfynnwyd yn Durisic a Bunijevac, 2017) sy'n nodi bod rhieni'n effeithio ar lwyddiant

dysgwyr, gan fod rhieni cefnogol yn magu plant sy'n llwyddo yn cymharu â dysgwyr sydd ddim â rhieni ymrwymedig. Yn ychwanegol, cyniga Estyn (2016c) y syniad o gynnal sesiynau adborth ac anfon llythyron/e-byst i gynorthwyo cyswllt agos ac i fonitro cynnydd y dysgwyr. Dyma'r strategaethau defnyddir gan YsgolX (YGG[redacted], 2021). I atgyfnerthu'r pwysigrwydd hyn mae esiampl nodedig gan Estyn (2016b) sy'n cyfleu bod y math yma o gyswllt gartref yn gwneud i rieni teimlo'n fwy abl a hyderus i gefnogi eu plant wrth wynebu heriau amrywiol a gwêl cynnydd yn ddatblygiad eu plant (Estyn, 2016c). I'r gwrthwyneb, sylweddola YsgolX mae nifer o heriau wrth ddefnyddio'r strategaeth yma, oherwydd nad yw bob rhiant yn fodlon cyfrannu neu gefnogi bwriad yr ysgol, felly mae anghysondeb.

Yn olaf, trafodir am sut maent yn mesur effaith y strategaethau i wella sgiliau llafar y dysgwyr. Fel rhan o'r broses mesurir effaith yn rheolaidd. Wrth roi'r cynllun ar waith maent yn cynnal briff pob hanner tymor i fonitro llwyddiant y cynllun trwy edrych ar ddata a gwrando ar farn yr athrawon. Rhagdybia Telemaque (2011) os yw athrawon yn fwy myfyriol a gwerthuso eu harfer yn rheolaidd eu bod mewn sefyllfa well i ddatblygu fel ysgol. Hefyd, mesurir yr effaith trwy gynnwys barn y dysgwyr. Cefnogir hyn gan weledigaeth Te Whāriki (Llywodraeth Selan Newydd, 2017) i blant chwarae rhan flaenllaw yn eu haddysg a gweledigaeth Llywodraeth Cymru (2020a) i greu cwricwlwm yn ganolog i lais y dysgwr er mwyn iddynt wneud cynnydd. Ymhellach, gofynnir am adborth gan y rhieni ar ffurf holiaduron. Ffaith hysbys yw bod holiaduron yn ddull poblogaidd o gasglu data oherwydd ei bod yn ddefnydd effeithiol o amser (Munn a Drever, 1990). Serch hyn, her dosbarthu holiaduron yw gall pobl peidio cymryd o ddifrif, sy'n darparu atebion anghywir (Cohen, Manion a Morrison, 2007).

Adfyfyrio a gwerthuso

Bwriedir adfyfyrio ar yr hyn mae YsgolX yn gwneud a'i werthuso trwy gefnogi gyda theori a chynnig awgrymiadau. Un o gamau gweithredu YsgolX yw parhau gyda sesiynau CLONC yn ddyddiol. Dyma raglen ailadroddol sy'n ymarfer y defnydd o ferfau, treigladau a ffurf gywir o siarad (YGG[redacted], 2021). Cefnogir hyn gan Bruner (2000) a dywed gall cynnwys ailadrodd yn addysgu cefnogi nifer o nwyddau addysgol hynod bwysig: y gallu i fyfyrio, cysondeb ac eglurder meddwl, sy'n hyrwyddo dysgu dwfn. Wrth gwrs, mae ochr dywyll i ormod o ailadrodd sef diflastod a dysgu ar y cof (Bruner, 2000). Bwriad YsgolX yw profi'r disgyblion ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn i godi sgiliau llafar y disgyblion er mwyn iddynt yn y pendraw ddefnyddio patrymau safonol ac i ddilyn rheolau sgwrsio ar lawr y dosbarth (YGG[redacted], 2021). Ond, argymhella Llywodraeth Cymru (2010) defnyddio

strategaethau asesu trwy gydol y dysgu yn hytrach na ar ddechrau a diwedd cyfnod i sicrhau bod y dysgwyr ar y trywydd iawn a'u hannog i wella'n barhaus.

Yn ychwanegol, mae ffocws ar sesiynau dadlau yn wythnosol (YGG[redacted], 2021). Defnyddir cynllun Voice 21 (2020) i ddatblygu eu sgiliau llafar trwy ddadlau nifer o dopigau gwahanol yn erbyn meini-prawf-llwyddiant a banc geirfa megis 'credaf..., anghytunaf...' (gwelir atodiad1). Cysylltir y strategaeth yma i'r diben gyfranwyr mentrus a chreadigol, oherwydd mae'n magu sgiliau fel mynegi syniadau a chwarae rôl o fewn tîm (Llywodraeth Cymru, 2015). Ar y cyfan, mae nifer o fuddion i gynnal sesiynau dadlau, megis datblygu'r sgil o feddwl yn feirniadol, creu cysylltiadau ac aeddfedrwydd (Bellon, 2000). Ond, yn fwy pwysig dyma gyfle i blant dadlau, rhannu syniadau a sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o ganlyniad i'r cysondeb ac ailadrodd yn wythnosol mae'r plant yn datblygu eu hyder (Voice 21, 2020). Siarada Taylor (2018) am ei phrofiad personol a mynna bod cysondeb wedi helpu i ddod â'r gorau allan yn ei disgyblion ac mae cysondeb yn effeithio ar yr ysgol gyfan.

Fel dywed yn gynharach mae'r gwahaniaeth rhwng amgylchedd ieithyddol y cartref ac ysgol yn her, felly mae cynnwys rhanddeiliad yn flaenoriaeth wrth ddatblygu sgiliau llafar Gymraeg (YGG[redacted], 2021). Awgrym gan Lywodraeth Cymru (2021) yw defnyddio mudiadau allanol fel Cymraeg i Blant neu Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) sef rhaglenni i annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg a chefnogi datblygiad ieithyddol plant. Mae'r mudiadau'n cydweithio â rhanddeiliad yn gadarnhaol i sicrhau bod mynediad at Addysg Gymraeg gan bawb sydd yn ei dymuno (RhAG, 2022). Efallai dyma rywbeth gall YsgolX defnyddio i gefnogi'r perthynas gyda rhieni a chael effaith cadarnhaol ar y dysgwyr.

Awgrym arall yw defnyddio'r Urdd mwy. Nod yr Urdd (2022) yw sicrhau cyfleoedd i blant defnyddio'r Gymraeg i ddatblygu'n unigolion cyflawn, a'u galluogi i chwarae rhan yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau ieithyddol a chymdeithasol. Cysylltir i'r diben, dinasyddion egwyddorol a gwybodus oherwydd maent yn dysgu i'r plant gwerthfawrogi eu diwylliant a chymuned sef un o fwriadau Ysgol X hefyd (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn gysylltiedig, noda Llywodraeth Cymru (2021) deilliannau allweddol ar gyfer taith addysg Gymraeg dysgwyr sy'n cyd-fynd â pholisi Cymraeg 2050 a Chenhadaeth ein Cenedl. Cysylltir bwriad yr Urdd (2022) i un o ddeilliannau Llywodraeth Cymru (2021) i ddarparu mwy o gyfleodd i ddysgwyr defnyddio'r Gymraeg i ymarfer eu sgiliau llafar. Rhaid derbyn bod yr Urdd (2022) yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg trwy amrywiaeth o weithgareddau, megis Eisteddfodau, cyfleoedd cymdeithasol a chwaraeon. Rhoddir y gweithgareddau cyfle i'r dysgwyr gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg a dod yn fwy hyderus o ran eu Cymreictod (Urdd, 2022). Mae nifer o rwydweithio ag asiantaethau allanol cymera YsgolX rhan ynddynt,

oherwydd yn ôl Llywodraeth Cymru (2016b) drwy feithrin partneriaethau cymunedol, mae ysgolion yn gallu creu cyfleoedd i blant ac yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth i gryfhau eu hysgol.

Casgliad

I grynhoi, dysgir llawer amdano bwysigrwydd CDY a'r prosesau sy'n arwain at flaenoriaethu agweddau penodol o fywyd ysgol. Yn amlwg, mae'r targed o wella sgiliau llafar Cymraeg yr ysgol yn un synhwyrol o ganlyniad i'r dirywiad ar ôl cyfnod clo a chanrannau uchel o ddysgwyr o gartrefi di-gymraeg. Cefnoga Llywodraeth Cymru (2021) y flaenoriaeth yma. O ganlyniad i'r pandemig mae addysg wedi cael ei effeithio, felly'r awgrym yw i'r ysgol blaenoriaethu ail-adeiladu, yn enwedig oherwydd mae plant yn fwy bregus ar ôl y cyfnod clo ac angen mwy o gymorth nag unrhyw bryd (Triggle, 2021). Mae'n eglur bod agweddau i ddatblygu a wneir awgrymiadau call a chefnogir gan lenyddiaeth amrywiol. Wrth gyflawni'r aseiniad datblygir y safon SAC i ddarllen yn ehangach, oherwydd dangosir dealltwriaeth o'r damcaniaethau a'r ymchwil yn gysylltiedig i CDY a chysylltir i arferion o ddydd i ddydd. Yn y dyfodol, defnyddir ymchwil i gefnogi penderfyniadau sy'n effeithio ar y dysgwyr ac edrychir ymlaen at fod ynghlwm a'r broses CDY ar ôl i'r wybodaeth casglir yn ystod yr aseiniad. Wrth ystyried y llenyddiaeth a chyfarfod efo'r ysgol mae'n amlwg dilynir argymhellion y Rhaglen Plant a Phobl Ifanc gan Lywodraeth Cymru (2015b) sy'n nodi dylai ysgolion gwneud yr hyn sydd orau i'r dysgwyr wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Geirfa: 2730

Bellon, J. (2000) *A researched-bases justification to debate across the curriculum*. Argumentation and Advocacy.

BERA. *Ethical Guidelines for Educational Research.* Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/blog/researching-with-young-and- developmentally-young-children-ethical-considerations-dilemmas-and-compromises> (Cyrchwyd: 2 Mai 2022).

Bezzina, C. (1999) *Opening Doors to School Improvement*. Malta: University of Malta.

Bruner, R. (2000) *"Repetition is the First Principle of All Learning"*. Virginia: University of Virginia.

CDC. (2021) *Language and Speech Disorders in Children*. Ar gael yn: <https://www.cdc.gov/ncbddd/childdevelopment/language- disorders.html> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2007) *Research Methods In Education*. Llundain: Taylor & Francis.

Comisiynydd Plant Cymru. (2011) *Deall Eich Hawliau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/ccfw_rights_poster_wel.pdf> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Daniel, J. (2022) *Education and the COVID-19 pandemic*. Vancouver: Springer.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Durisic, M. a Bunijevac, M. (2017) *Parental Involvement as a Important Factor for Successful Education*. Ar gael yn: https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1156936.pdf (Cyrchwyd: 2 Mai 2022).

Education and Training Inspectorate. (2009) *An Evaluation of School Development Planning*. Bangor: Department of Education.

EEF. (2021) *School improvement planning*. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/support-for-schools/school-improvement-planning> (Cyrchwyd: 3 Mai 2022).

Estyn. (2016) *Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Estyn. (2016b) *Cyfranogiad Disgyblion: Canllaw Arfer Orau*. Caerdydd: Hawlfraith y Goron.

Estyn. (2016c) *Sharing Expertise With Parents, Carers And Schools*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/sharing-expertise-parents-carers- and-schools> (Cyrchwyd: 2 Mai 2022).

Estyn. (2018) *Adroddiad ar Ysgol* [redacted] .Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Inspection%20report%20Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20[redacted]%202018.pdf> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Gross, J. (2013) *Time To Talk*. Oxon: Taylor and Francis.

Hallahan, G. (2021) *Are teacher observations worth the bother?* Ar gael yn: <https://www.tes.com/magazine/leadership/staff-management/are-teacher-observations-worth-bother> (Cyrchwyd: 4 Mai 2022).

Inwood, D. (2020) *Why lesson observations need to be challenged*. Ar gael yn: <https://www.sec-ed.co.uk/best-practice/why-lesson-observations-need-to-be-challenged/> (Cyrchwyd: 4 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru. (2010) *Sut i Ddatblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu yn yr Ystafell Ddosbarth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2014) *Cynlluniau Datblygu Ysgolion*. Caerdydd: Adran Addysg a Sgiliau.

Llywodraeth Cymru. (2015) *Pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pedwar-diben-y-cwricwlwm-i-gymru.pdf> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru. (2015b) *Rhaglen Plant a Phobl Ifanc*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru. (2016) *Thema 1: Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n gwella ei hun*. Caerdydd: Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Llywodraeth Cymru. (2016b) *Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol Adnoddau 1–2*. Caerdydd: Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Llywodraeth Cymru. (2020a) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2020b) *The effects of Covid-19 on Welsh language community groups - survey findings*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2021) *Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Selan Newydd. (2017) *Te Whāriki - Early Childhood Curriculum*. Thorndon Wellington: Ministry of Education New Zealand.

McLeod, S. (2020) *Lev Vygotsky*. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/vygotsky.html#language> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Munn, P. a Drever, E. (1990) *Using Questionaires In Small-Scale Research. A Teachers' Guide*. Edinburgh: The Scottish Council for Research in Education.

Paramour, Z. (2018) *How to be an Outstanding Primary Middle Leader*. Llundain: Bloomsbury Publishing.

PHE. (2014) *Local Action On Health Inequalities: Improving The Home To School Transition*. Llundain: UCL Institute of Health Equity.

RhAG. (2022) *Amdanom*. Ar gael yn: <http://www.rhag.cymru/about/> (Cyrchwyd: 2 Mai 2022).

Rogers, H. (2020) *The Covid-19 Pandemic: Shocks To Education And Policy Responses*. World Bank Group.

Schildkamp, K. (2019) Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps. *Educational Research*, 61(3).

Siencyn, S. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*. Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Taylor, H. (2018) *Classroom management strategies: consistency is key*. Ar gael yn: <https://www.ambition.org.uk/blog/classroom-management-strategies-consistency-key/> (Cyrchwyd: 2 Mai 2022).

Telemaque, E. (2011) A Review of: The Power of Critical Theory: Liberating Adult Learning and Teaching. *Journal of Research on Christian Education.*

Triggle, N. (2021) *Covid: The devastating toll of the pandemic on children*. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/health-55863841> (Cyrchwyd: 2 Mai 2022).

Urdd. (2022) *Urdd Gobaith Cymru / Hafan*. Ar gael yn: <https://www.urdd.cymru/cy> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Voice 21. (2020) *Voice 21 – The national oracy education charity*. Ar gael yn: <https://voice21.org> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

YGG[redacted]. (2021) *Cynllun Datblygu 2021-2022*. Abertawe: [redacted]

YGG [redacted]. (2022) *Ysgol Gynradd Gymraeg* [redacted] Ar gael yn: <https://www.ygg[redacted].co.uk> (Cyrchwyd: 1 Mai 2022).

Zascerinska, J. (2010) *Language Acquisition And Language Learning: Developing The System Of External And Internal Perspectives.* Daugavpils University.

Atodiad 1

Sgleinio ein Sgwrsio

Mae gen i gwestiwn i ofyn...

Ble hoffech chi ymweld ag yn America?

	Angen gwella	*Weithiau*	*Pob tro*
Gwrandawais ar aelodau eraill a ni siaradais ar eu traws.			
Parchais syniadau eraill hyd yn oed os na chytunais i.			
Gofynnais gwestiwn/gwestiynau.			
Edrychais ar y person a oedd yn siarad.			
Anghytunais a sylwadau aelodau eraill.			
Cytunais a sylwadau aelodau eraill.			

Ticiwch yr eirfa allweddol llwyddaist ti i ddefnyddio yn eich dadl:

- ☐ atyniadau
- ☐ profiadau
- ☐ bwydydd
- ☐ oherwydd
- ☐ tywydd
- ☐ er enghraifft
- ☐ Hoffwn
- ☐ Ni hoffwn